Eisteddfod y Tymbl yn dathlu 80 mlynedd 2026.

(Rhoddwyd y gefnlen a'r ffrâm i'w ddal i ddathlu 80 mlynedd yr eistddfod gan Damian Jones Newgen Export. Diolch yn fawr iddo am yr addurn effeithiol a thrawiadol yma i ddathlu'r gorffennol ac i harddu'r dyfodol.)



Mae pob eisteddfod yn bwysig – yr un gyntaf i chi gystadlu ynddi; yr un gyntaf i chi ennill cystadleuaeth ynddi; efallai y gyntaf i chi feirniadu ynddi!

Eleni roedd Eisteddfod y Tymbl yn arbennig am ei bod yn dathlu penblwydd arbennig yn bedwar ugainfed eisteddfod flynyddol. Ie wir, roedd Eisteddfod y Tymbl yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Mewn pabell ar Heol Llety, Y Tymbl Uchaf oedd cartref cyntaf yr eisteddfod. Beth sy'n ddiddorol iawn yw mai pwyllgor Y Clwb Criced yn ogystal â phwyllgor Llesiant y Tymbl oedd yn gyfrifiol am drefnu'r eisteddfod gyntaf honno. Oni fyddai'n hyfryd gwybod beth oedd y meddwl tu ôl i benderfyniad Pwyllgor y Clwb Criced hwnnw. Mewn amser gymrodd Pwyllgor Llesiant Y Tymbl drosodd ac erbyn heddiw mae yna bwyllgor arbennig sydd wedi ei ffurfio i drefnu'r Eisteddfod a diolch iddynt a'r criwiau cyntaf yna am eu gwaith caled a chyson.

Llywydd y Dydd eleni oedd yr actor a'r canwr ac un o blant Y Tymbl pan oedd yn fachgen ifanc ac yn "boy soprano" o fri sef Emyr Wyn (Evans). Yn ei ffordd ddiddorol a difyr ei hun aeth â ni nôl i'r flwyddyn a'r blynyddoedd cynnar yna drwy son am lyfr o gofnodion gan gynghorydd lleol. Credwch neu beidio ond rhaglen Saesneg ei hiaith oedd y rhaglen gyntaf. Dyna oedd y ffasiwn ac efallai y ddeddf y dyddiau hynny! Yn ôl pryd hynny doedd gan yr iaith Gymraeg ddim hawliau cyfreithiol i'w chael ei defnyddio fel iaith swyddogol. Mae'n anodd i'n pobl ifanc heddiw grybwyll amser pan na welwyd y Gymraeg wedi ei hysgrifennu yn unrhywle tu allan i waliau adeiladau crefyddol neu gartrefi. Roedd hyd yn oed Cymry Cymraeg yn ysgrifennu llythyron i'w gilydd yn yr iaith Saesneg! Cysgod y "Welsh Not" a chysgod Brad y Llyfrau Gleision? Efallai y byddai'n dda o beth i chwilmantan yn y droriau yn nhŷ Mamgu a Thadcu i chwilio am hen ddogfennau swyddogol a chreu casgliad lleol i ddangos y gwirionedd hyn.





I ddathlu bod yna griw o bobl yn Y Tymbl wedi mentro gwneud rhywbeth am y tro cyntaf 80 mlynedd yn ôl penderfynwyd mai un ffordd dda o ddathlu hynny oedd dilyn eu hengraifft drwy ddechrau rhywbeth newydd. Nid un peth yn unig, ond dau beth, neu i fod yn fanwl gywir dwy! Ie, dwy - dwy gysdadleuaeth newydd. I ddangos hyder yn y dyfodol mae'r ddwy gystadleuaeth yn ymwneud, ym marn pwyllgor yr eisteddfod â'r dyfodol. Un yw Tlws yr Ifanc ac fe gomisiynwyd tlws arbennig a hardd gan artist lleol sef Jo Partridge (siop yn Tŷ Llanelli). Ei hysbrydoliaeth oedd Y Mynydd Mawr a'r tir o amglych ac yn y canol ysgrifbin dramatig i adlewyrchu mai cystadleuaeth yw hon i bobl dan 25 oed i gyfansoddi darn o lenyddiaeth. Yn y llun gwelir Aled Lewis Rees yr enillydd sy'n fachgen ifanc o Orseinon ac yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Soniwyd amdano gan y beirniad Anni Llŷn fel talent eithriadol sy'n dangos iaith graenus, darlunio crefftus a gwreiddioldeb yn ei stori am "Ddod Adre". Daeth yn 3ydd yn Eisteddfod Yr Urdd Ynys Môn, yn 2ail yn ei eisteddfod ysgol ac yn Y Tymbl dywedodd ei fod yn hapus tu hwn i ddod i'r brig yn Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl. Roedd dau ar bymtheg wedi cystadlu a'r safon yn eithriadol o uchel. Llwyddiant arbennig felly i'r enillydd ond hefyd i Eisteddfod y Tymbl wrth gynnig y gystadleuaeth hon am y tro cyntaf eleni. Dyma gystadleuaeth i'r ieuenctid, i bobl y dyfodol, i ddyfodol yr eisteddfod fach leol hon. Yn y llun gwelir Rhian, Marc a Marged-Alys o'r Tymbl noddwyr y gystadleuaeth gyda'r enillydd a'r tlws.





Y gystadleuaeth arall newydd oedd y gystadleuaeth i'r Dyswgwyr neu'r Siaradwyr Newydd i ysgrifennu paragraff "Lle dw i'n byw nawr." Gofynwyd iddynt nodi eu profiad gyda'r iaith fel bo modd beirniadu yn ôl cefndir a pha mor hir yr oeddent wedi bod wrthi'n dysgu. Er nad oedd yn bosibl i ddau o'r enillwyr fod yn bresennol yn yr eisteddfod gan eu bod ar eu gwyliau haf hwyr (bach yn bell i ddod nôl o Ffiji!) mi oedd yn bosibl i un o'r tri ddaeth i'r brig fod yn bresennol a dysgwyd bod y tri wedi bod yn Eisteddfod y Garreg Las sef eu heisteddfod gyntaf erioed eleni. Ar ôl cael blas yn Llantwd maent yn bwriadu ac yn edrych ymlaen i fynychu eto yn y dyfodol. Yn y llun gwelir Jenny Willey o Gefneithin a David Lewis o Lannon a ddaeth yn 1af ac 2ail yn Y Cwtsh, Pontyberem lle maent yn cwrdd yn wythnosol i ymarfer eu Cymraeg. Yn 3ydd oedd Tim Shorecross o Bontiets. Braf iawn gweld pobl lleol yn ymdoddi mewn i'r gymdeithas maent yn byw ynddi nawr ac yn cyfrannu yn ddiwilladol. Mae dyfodol ein hiaith yn mynd i ddibynnu ar ein plant a'n pobl ifanc fydd yn defnyddi'r Gymraeg yn naturiol fel cyfrwng byw. Bydd hefyd yn dibynnu ar fewnfudwyr i'n hardal sydd yn barod ac yn awyddus i wneud yr ymdrech a'r buddsoddiad amser ac arian i fynd ati i ddysgu ein hiaith. Gobeithiwn bod y ddwy gystadleuaeth yma wedi dangos ein cefnogaeth a'n hyder yn y ddau adran yna o'n cymdeithas.



Dod adre wnaeth enillydd Y Gadair. Roedd 7 ymgais a diddorol oedd clywed am y testunau gan y beirniad. Roedd ym amlwg bod y testun “Cysgod neu Gysgodion” wedi bod yn sbardun i sawl awdur fynd ar lwybrau gwahanol ac amrywiol yn eu gwaith. Yn y diwedd chwaeth personol yn fwy na dim oedd y rheswm am ddewis y gwaith buddugol oedd yn son am gysgolion y pyllau glo ar ei fywyd yn gorfforol, yn ysbrydol ac yn ddiwilliannol. Nid syndod felly oedd clywed mai person â chysylltiad â’r Tymbl oedd yr enillydd sef Mel Morgan. Erbyn hyn un o drigolion Brynaman yw Mel ond un o fechgyn ifanc Y Tymbl oedd ac roedd arfer byw yng nghysgod y tipiau glo. Roedd hefyd wedi cystadlu a chael llwyddiant yn y cystadleuthau llenyddol eraill yn yr eisteddfod eleni. Ardderchog wir. Gwelir yn y llun ei fod wrth ei fodd i ddod i’r brig ac ennill y gadair.





Er bod yr erthygl yma wedi canolbwyntio mwy ar beth oedd yn newydd yn yr eisteddfod gan ein bod wedi bod yn edrych ymlaen wrth edrych yn ôl 80 mlynedd rhaid hefyd diolch i’r bobl sy’n fara menyn eisteddfod leol fel hon a chofio llwyddiant y ffyddloniaid.









Cafwyd cystadlu brwd, llwyddiannus a hapus gan ein hysgolion lleol. Braf tu hwnt oedd gweld yr wynebau ifanc yn cyrraedd yng nghanol glaw y bore yn wên o glust i glust hyd yn oed cyn cystadlu nid dim ond ar ôl ennill. Diolch i'r disgyblion lleol a'u hathrawon oedd wedi gweithio'n galed mewn byr amser ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i ddod i safon mor dda i blesio'r beirniaid sef Esyllt Thomas (cerdd) ac Anni Llŷn (llafar a llên) ac i'r paratoi cyn y gwyliau i drefnu'r cystadlu "gwaith cartref" i gael eu didoli a'u gwobrwyo gan Kathryn Penhale (arlunio a llawysgrifen) a Ceririos Williams (cyfansoddiadau'r plant). Mae mor braf i glywed enwau'r holl ysgolion lleol yn cael eu henwi dro ar ôl tro wrth i'r plant fentro i'r llwyfan ac i'w gwobrwyo am eu gwaith llaw. Beth sy'n hynod o bleserus yw gweld mwy o'r plant lleol yma yn aros gyda'i rhieni yn y gynulleidfa ar ôl y cystadleuthau i blant lleol yn unig i fentro ar y llwyfan eto yn yr adran "agored".

Llongyfarchiadau hefyd i'r unigolion oedd wedi teithio o bell ac agos i gystadlu yn ystod y dydd. Mae'n bendant bod yna dalent mawr yn ein hieuenctid a braf yw gallu eu gweld yn barod i rannu'r talent hwnnw gyda ni ar Sadwrn ym mis Medi.

Diolch i'r holl weithwyr sy'n gwneud yr eisteddfod yn bosibilrwydd, y cystadleuwyr o bell ac agos, y noddwyr i gefnogi'r enillwyr yn ariannol ac i wneud y digwyddiad yn bosibl ac wrth gwrs i'r gynulleidfa sy'n mynd a dod i weld gwahanol gystadleuthau ac yn arbennig y rhai sy'n aros drwy dydd. Gan ddymuno y bydd dyfodol disglair i'r cystadleuwyr ac i'r Eisteddfod am 80 mlynedd arall!

Canlyniadau Eisteddfod Y Tymbl 2026

Cystadlaethau Lleol

Unawd Canu Bl. 3 a 4

1. Macs Daives, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
2. Alice Williams, Ysgol Gymraeg Gorslas
3. Kian Purchase, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Llefaru Bl. 3 a 4

1. Owen Eaton-Roberts, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
2. Cora Davies, Ysgol Llannon
3. Macs Davies, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Unawd Canu Bl.2 a Than Hynny

1. Eva Watkins, Ysgol Gymraeg Gorslas
2. Sophie Griffiths, Ysgol Gymraeg Cefneithin
3. Ysella Talbot, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Llefaru Bl. 2 a Than Hynny

1. Sara Bladen, Ysgol Gymraeg Gorslas
2. Eva Watkins, Ysgol Gymraeg Gorslas
3. Ysella Talbot, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Unawd Canu Bl. 5 a 6

1. Hannah Lewis, Ysgol Gymraeg Gorslas
2. Steffan Thomas, Ysgol Llannon
3. Ella Griffiths, Ysgol Gymraeg Cefneithin

Llefaru Bl. 5 a 6

1. Elen Griffiths, Ysgol Llannon
2. Megan Jenkins, Ysgol Gymraeg Cefneithin
3. Steffan Thomas, Ysgol Llannon

Cystadleuydd Mwyaf Addawol Yn Yr Ardal Leol - Ella Griffiths, Ysgol Gymraeg Cefneithin

Cystadlaethau Agored

Unawd dan 6 oed

1. Heti Beaumont, Cwmann

Unawd 6-8 Oed

1. Sophie Griffiths, Y Tymbl
2. Betsi Ann Beaumont, Cwmann
3. Miriam Gwyn, Llangynnwr

Llefaru 6-8 Oed

1. Alys Phillips, Caerdydd
2. Sophie Griffiths, Y Tymbl

Unawd 8-10 Oed

1. Greta Wyn, Llangynnwr
2. Mari Grug, Penygroes Tryfan Phillips, Talsarn
3. Gwion Dafydd Bowen, Boncath

Llefaru 8-10 Oed

1. Tryfan Phillips, Talsarn
2. Gwern Dafydd Bowen, Boncath

Unawd 10-12 Oed

1. Megan Haf Griffiths, Treletert
2. Hannah Lewis, Gorslas
3. Ella Griffiths, Y Tymbl

Llefaru 10-12 Oed

1. Megan Haf Griffiths, Treletert

Unawd Ar Unrhyw Offeryn Cerdd Dan 12 Oed

1. Olivia John, Drefach
2. Tryfan Phillips, Talsarn

Cân Werin Dan 12 Oed

1. Megan Haf Griffiths, Treletert
2. Gwern Dafydd Bowen, Boncath
3. Greta Wyn, Llangynnwr

Llefaru Darn O'r Ysgrythur Dan 12 Oed

1. Megan Haf Griffiths, Treletert
2. Gwion Dafydd Bowen, Boncath

Canu Emyn Dan 12 Oed

1. Betsi Ann Beaumont, Cwmann
2. Greta Wyn, Llangynnwr
3. Megan Haf Griffiths, Treletert Gwern Dafydd Bowen, Boncath Tryfan Phillips, Talsarn

Unawd Dan 12 i 16 Oed

1. Elen Fflur, Casnewydd-bach
2. Awel Grug Lewis, Rhydaman
3. Rhys Greenfield, Cydweli

Llefaru 12 i 16 Oed

1. Awel Grug Lewis, Rhydaman
2. Gwion Dafydd Bowen, Boncath Elen Fflur, Casnewydd-bach
3. Marged-Alys Richards, Tymbl Uchaf Carys Thomas, Caerfyrddin

Cân Werin 12 i 16 Oed

1. Elen Fflur, Casnewydd-bach
2. Awel Grug Lewis, Rhydaman

Unawd Ar Unrhyw Offeryn Cerdd 18 Oed a Than Hynny

1. Michael Thomas, Caerfyrddin
2. Hawys Llewelyn Jones, Drefach
3. Tabitha Seward, Llangennech Marged-Alys Richards, Tymbl Uchaf

Unawd Canu 16 i 21 Oed

1. Brychan Williams, Llambed
2. Alwena Owen, Llanllwni
3. Hawys Llewelyn Jones, Drefach

Llefaru 16 i 21 Oed

1. Alwena Owen, Llanllwni

Cystadleuydd Ifanc Mwyaf Addawol Yn Yr Adran Gerdd (dan 21 oed) - Brychan Williams, Llambed

'Sgen Ti Dalent

1. Gwion Dafydd Bowen, Boncath
2. Brychan Williams, Llambed
3. Carys Thomas, Caerfyrddin Alwena Owen, Llanllwni Elen Fflur, Casnewydd-bach

Cân Werin Agored

1. Elen Fflur, Casnewydd-bach
2. Brychan Williams, Llambed
3. Alwena Owen, Llanllwni

Unawd Allan O Sioe Gerdd

1. Brychan Williams, Llambed
2. Awel Grug Lewis, Rhydaman
3. Hawys Llewelyn Jones, Drefach

Llefaru Darn O'r Ysgrythur

1. Awel Grug Lewis, Rhydaman
2. Gwion Dafydd Bowen, Boncath
3. Sulwen Davies, Drefach

Canu Emyn: Dan 60 Oed

1. Brychan Williams, Llambed
2. Elen Fflur, Casnewydd-bach
3. Alwena Owen, Llanllwni

Canu Emyn: Dros 60 Oed

1. Liz Rees, Porth Tywyn
2. Sulwen Davies, Drefach

Adrodd Digri

1. Gwion Dafydd Bowen, Boncath
2. Sulwen Davies, Drefach

Her Llefaru (dros 21 oed)

1. Maria Evans, Alltwalis
2. Sulwen Davies, Drefach

Cystadlaethau i Blant Yr Ysgolion Lleol

Arlunio

Dosbarth Meithrin a Derbyn

1af - Ysella Talbot, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

2il - Elodie, Ysgol Gymraeg Cefneithin

3ydd - Lincoln Prince, Ysgol Gymraeg Cross Hands

Blynyddoedd 1 a 2
1af - Gruff Howells, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
2il - Layla Geleta, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
3ydd - Sara Rees, Ysgol Llannon

Blynyddoedd 3 a 4
1af - Daniel Rees, Ysgol Gymraeg Gorslas
2il - Dwynwen James, Ysgol Llannon
3ydd - Efa Williams, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
Iestyn Elias, Ysgol Gymraeg Gorslas

Blynyddoedd 5 a 6
1af - Grace Duggan, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
2il - Isla Beamish, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Rosie Nesbitt, Ysgol Gymraeg Cefneithin

Tarian ar gyfer y darn gorau yn yr adran arlunio - Grace Duggan, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Cystadlaethau Llawysgrifen
Blynyddoedd 1 a 2
1af - Florence Letley, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
2il - Mabli, Ysgol Gymraeg Cefneithin
3ydd - Alistair Duggan, Ysgol Gymraeg Y Tymbl

Blynyddoedd 3 a 4
1af - Daniel Rees, Ysgol Gymraeg Gorslas
2il - Phoebe Wilson, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Kayla Seargant, Ysgol Gymraeg Gorslas

Blynyddoedd 5 a 6
1af - Grace Stephens, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
2il - Grace Duggan, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Megan Hughes, Ysgol Gymraeg Gorslas

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth
1af - Imogen, Ysgol Llannon
2il - Eli Howells, Ysgol Gymraeg Gorslas
3ydd - Lili-Mai Howells, Ysgol Gymraeg Gorslas

Cystadleuaeth Creu Nod Lyfr
Blynyddoedd 3 a 4
1af - Ella Jordan, Ysgol Llannon
2il - Ollie Young, Ysgol Llannon
3ydd - Harry Rees, Ysgol Llannon

Blynyddoedd 5 a 6
1af - Leo Pellecchia, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
2il - Grace Duggan, Ysgol Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Efa Thomas, Ysgol Llannon

Barddoniaeth

Blynyddoedd 3 a 4

1af - Steffan Thomas, Ysgol Llannon
2il - Daniel Rees, Ysgol Gymraeg Gorslas
3ydd - Williams Thomas, Ysgol Llannon

Blynyddoedd 5 a 6

1af - Finley Davies, Ysgol Llannon
2il - Hari Howells, Ysgol Gymraeg Llechyfedach
3ydd - Grace Stephens, Ysgol Gymraeg Llechyfedach

Cystadleuthau Llên

Tlws Yr Ifanc

1. Aled Lewis Rees

Cystadleuaeth I Ddysgwyr - 'Lle Dw I'n Byw Nawr'

1. Jenny Willey, Cefneithin
2. David Lewis, Llannon
3. Tim Shorecross, Pontiets

Y Gadair - 'Cysgod/Cysgodion'

Mel Morgans, Brynaman

Telyneg - 'Hafan'

1. Tesni Peers, Rhosllannerchrugog
2. Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys — Dr Carwyn Tywyn, Porth Tywyn
3. Megan Richards, Aberaeron

Englyn Ysgafn - 'Toriad/Toriadau'

1. Eryl Mathias, Ffarmers
2. Gruff Gwynn, Machen
3. Richard Jones, Llangollen — Mel Morgans, Brynaman

Ysgrif Neu Stori - 'Tylwyth/Teulu'

1. Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys
2. Megan Richards, Aberaeron
3. Megan Richards, Aberaeron

Brawddeg - 'Cymodgaeth'

1. Mel Morgans, Brynaman
2. Mel Morgans, Brynaman
3. Mel Morgans, Brynaman

Limrig - 'Mae 'Steddfod Y Tymbl yn dathlu'

1. Myfanwy Roberts, Llanrwst
2. Megan Richards, Aberaeron
3. Megan Richards, Aberaeron

Emyn Dôn

1. Dr. Godfrey Williams, Pontcysyllte
2. Berian Lewis, Cross Hands